Dogfen ir Cyhoedd

Mr Richard Parry Jones, BA, MA.
Prif Weithredwr – Chief Executive

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| | | |
|---|---|---|
| **RHYBUDD O GYFARFOD** | | **NOTICE OF MEETING** |
| **PWYLLGOR SAFONAU** | | **STANDARDS COMMITTEE** |
| **DYDD MERCHER,**<br>**12 MAWRTH 2014 am 2.00 o'r gloch** | | **WEDNESDAY,**<br>**12 MARCH, 2014 at 2.00 p.m.** |
| **YSTAFELL BWYLLGOR 1,**<br>**SWYDDFEYDD Y CYNGOR, LLANGEFNI** | | **COMMITTEE ROOM 1,**<br>**COUNCIL OFFICES, LLANGEFNI** |
| **Swyddog Pwyllgor** | **Mrs. Mairwen Hughes**<br>**(01248) 752516** | **Committee Officer** |

**Aelodau Annibynnol / Independent Members**

Denise Harris Edwards
Islwyn Jones **(Is-Gadeirydd/Vice-Chair)**
Leslie Lord
Dilys Shaw
Michael Wilson **(Cadeirydd/Chair)**

**Yn cynrychioli'r Cyngor Sir / Representing the County Council**

Cynghorydd Trefor Lloyd Hughes
Cynghorydd Dafydd Rhys Thomas

**Yn cynrychioli'r Cynghorau Tref/Cymuned / Representing the Town/Community Councils**

William Raymond Evans
John Roberts

**R H A G L E N**

1 **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

2 **COFNODION Y CYFARFOD** (Tudalennau 1 - 8)

Cadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Rhagfyr, 2013.
***(PAPUR 'A')***

3 **FFORWM PWYLLGORAU SAFONAU** (Tudalennau 9 - 18)

**3A** Cadarnhau cofnodion y Fforwm Pwyllgorau Safonau a gynhaliwyd ar 21 Hydref, 2013.
***(PAPUR 'B')***

**3B** Cymeradwyo'r llythyr a fydd yn cael ei anfon at Un Llais Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru mewn perthynas â datblygu :-
(i) Copi ar gyfer gwefannau Cynghorau Tref a Chymuned, a (ii) 'Pecyn Cymorth' ar gyfer Cynghorau Tref a Chymuned. **(PAPUR 'C')**

**3C** Cymeradwyo'r llythyr a fydd yn cael ei anfon at yr Ombwdsmon yn gofyn am i benderfyniadau sy'n cael eu gwneud gan Bwyllgorau Safonau gael eu cyhoeddi ar wefan yr Ombwdsmon. ***(PAPUR 'CH')***

4 **DATGANIADAU O DDIDDORDEB MEWN CYFARFODYDD A CHOFRESTR RHODDION A LLETYGARWCH**

Derbyn diweddariad ar lafar gan y Gyfreithwraig (Llywodraethu Corfforaethol) mewn perthynas â'r sefyllfa gyfredol o ran y tair gofrestr.

5 **CWYNION YNGHYLCH YMDDYGIAD I OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU** (Tudalennau 19 - 26)

**5A** Adroddiad gan y Gyfreithwraig (Llywodraethu Corfforaethol) ar ffurf tabl wedi'i ddiweddaru mewn perthynas â Chynghorwyr Sir. Er gwybodaeth ac unrhyw gwestiynau. ***(PAPUR 'D')***

**5B** Adroddiad gan y Gyfreithwraig (Llywodraethu Corfforaethol) ar ffurf tabl wedi'i ddiweddaru mewn perthynas â Chynghorau Tref a Chymuned. Er gwybodaeth ac unrhyw gwestiynau. ***(PAPUR 'DD')***

6 **PENDERFYNIADAU'R PANEL DYFARNU** (Tudalennau 27 - 30)

Crynodeb gan y Gyfreithwraig (Llywodraethu Corfforaethol) o benderfyniadau a waned yn ddiweddar. ***(PAPUR 'E')***

7 **HYFFORDDIANT AR GYFER AELODAU A CHYNGHORAU TREF A CHYMUNED - HYFFORDDIANT AR Y CÔD YMDDYGIAD AC ADOLYGIADAU PERFFORMIAD (PWYLLGOR SAFONAU)** (Tudalennau 31 - 50)

**7A** Cadarnhau yr anfonwyd llythyrau at y Cynghorau Cymuned a'r Aelodau Etholedig yn eu wardiau (y nachos y rheini nad oeddynt yn bresennol) yn dwyn sylw at eu record presenoldeb yn y sesiynau hyfforddi.
***(PAPUR 'F')***

**7B** Trafod dyddiadau ar gyfer y sesiwn hyfforddi nesaf. **(Swyddog Monitro)**

**7C** Cadarnhau fod y Rheolydd Datblygu Hyfforddiant wedi ysgrifennu at Un Llais Cymru ynghylch safon yr hyfforddiant a gafwyd yr haf diwethaf. **(Uwch Swyddog Datblygu AD)**

**7CH** Adroddiad llafar gan y Rheolydd Datblygu Hyfforddiant ar adolygiadau perfformiad y Pwyllgor Safonau. ***(PAPUR 'FF')***

**8** **<u>ADOLYGU'R COFRESTRAU</u>** (Tudalennau 51 - 54)

Derbyn adroddiad gan y Gyfreithwraig (Llywodraethu Corfforaethol) ar gasgliadau'r adolygiadau o'r cofrestrau a thrafod y camau nesaf.
***(PAPUR 'G')***

**9** **<u>STATWS SIARTR AELODAU</u>**

Derbyn adroddiad llafar gan Bennaeth y Gwasanaethau Democrataidd Dros Dro ar ei statws.

**10** **<u>GWEDDARLLEDU/MYNYCHU O BELL A CHEFNOGAETH TG AR GYFER CYNGHORAU TREF A CHYMUNED</u>** (Tudalennau 55 - 58)

Cyflwyno, er gwybodaeth, adroddiad a ystyriwyd gan y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ar 30 Ionawr, 2014.
***(PAPUR 'NG')***

This page is intentionally left blank

# PAPUR/ENCLOSURE A

# PWYLLGOR SAFONAU

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Rhagfyr 2013

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | **Aelodau Annibynnol**<br><br>Mr. Michael Wilson (Cadeirydd)<br>Mr. Islwyn Jones (Is-gadeirydd)<br><br>Mrs. Denise Harris Edwards<br>Leslie Lord<br>Dilys Shaw<br><br>**Yn cynrychioli'r Cynghorau Tref a Chymuned**<br><br>Y Cynghorydd William Raymond Evans<br>John Roberts<br><br>**Yn cynrychioli'r Cyngor Sir**<br><br>Y Cynghorydd Trefor Lloyd Hughes<br>Y Cynghorydd Dafydd Rhys Thomas |
| **WRTH LAW:** | Pennaeth Busnes y Cyngor/Swyddog Monitro,<br>Pennaeth Dros Dro y Gwasanaethau Democrataidd (JHJ) (ar gyfer Eitem 5),<br>Cyfreithwraig – Llywodraethu Corfforaethol (AP),<br>Rheolydd y We a Gwybodaeth Gorfforaethol (PA) (ar gyfer Eitem 4),<br>Swyddog Gofal Cwsmer (BJ) (ar gyfer Eitemau 6, 7, 8 & 9),<br>Uwch Swyddog Datblygu AD (MW) (ar gyfer Eitem 10),<br>Swyddog Pwyllgor (MEH). |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Neb |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Dim |

**1 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Ni chafwyd yr un datganiad o ddiddordeb.

**2 COFNODION Y CYFARFOD**

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Medi, 2013, ar yr amod bod y geiriau '*Change 2*' yn cael eu newid i '*Newid 2*' yn y fersiwn Gymraeg o eitem 8 y cofnodion.

**YN CODI**

**8 – Rheolau Gweithdrefn Cynllunio**

Dywedodd Pennaeth Busnes y Cyngor/Swyddog Monitro fod y newidiadau i'r Rheolau Gweithdrefn Cynllunio a gefnogwyd gan y Pwyllgor Safonau wedi cael eu cymeradwyo gan y Cyngor Sir ar 5 Rhagfyr, 2013.

**14 – Canlyniad Ymchwiliad gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus i gŵyn yn erbyn Cynghorydd Cymuned**

Awgrymodd yr Is-gadeirydd y dylai Aelodau eraill o'r Pwyllgor Safonau gymryd rhan mewn achosion tebyg yn y dyfodol.

## 3 PROSIECT RHEOLI CWYNION – ADOLYGIAD ARCHWILIO

Cyflwynwyd – Taflen Cynllunio Tasgau Archwilio mewn perthynas â'r modd y mae'r Cyngor yn cydymffurfio gyda'i Bolisi Pryderon a Chwynion Corfforaethol ac a ydyw o ganlyniad yn delio'n effeithiol gyda phryderon a chwynion ei gwsmeriaid.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.**

**GWEITHREDU: Gwahodd y Rheolwr Archwilio i fynychu cyfarfod nesaf y Pwyllgor Safonau.**

## 4 DATGANIADAU O DDIDDORDEB MEWN CYFARFODYDD A'R GOFRESTR RHODDION A LLETYGARWCH

Cyflwynwyd – adroddiad gan Reolydd y We a Gwybodaeth Gorfforaethol ar y cynnydd a wnaed o ran galluogi Aelodau Etholedig i gwblhau'r cofrestrau statudol uchod ar-lein.

Dygwyd sylw at y ffaith fod Aelodau Etholedig yn parhau i gofrestru rhoddion a lletygarwch ar gofrestr bapur yn hytrach nag ar y fersiwn ohoni sydd ar gael ar-lein.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.**

**GWEITHREDU :**

**(1) Bod llythyr yn cael ei anfon ar ran y Pwyllgor Safonau'n atgoffa'r Aelodau Etholedig y dylent gofrestru eu rhoddion a'u lletygarwch ar-lein.**

**(2) Atgoffa'r Aelodau na fydd modd iddynt, yn y man, gofrestru eu rhoddion a lletygarwch ar bapur.**

**(3) Bod Rheolydd y We a Gwybodaeth Gorfforaethol yn cyflwyno diweddariad i'r cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor Safonau.**

## 5 GWEDDARLLEDU/MYNYCHU O BELL A CHEFNOGAETH TGCH AR GYFER CYNGHORAU TREF A CHYMUNED

Cyflwynwyd – diweddariad gan Bennaeth Dros Dro y Gwasanaethau Democrataidd ar yr uchod.

Nodwyd bod y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd wedi argymell y dylid symud ymlaen i weddarlledu cyfarfodydd am gyfnod arbrofol o 12 mis er mwyn defnyddio'r arian a gafwyd gan Lywodraeth Cymru. Byddai'r Cyngor llawn, y Pwyllgor Gwaith a'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion yn rhan o'r cynllun peilot hwn.

Codwyd cwestiynau ynghylch ymarferoldeb mynychu cyfarfodydd o'r Cyngor o bell. Mewn ymateb, dywedodd y Swyddog bod angen gwneud gwaith pellach i ymchwilio i'r opsiynau ar gyfer mynychu o bell a'i fod yn gobeithio adrodd yn ôl i'r Pwyllgor Safonau wedyn.

Mynegodd Aelodau'r Pwyllgor Safonau bryderon ynghylch yr anogaeth a roddir i rai o'r Cynghorau Tref/Cymuned i ddefnyddio'r arian i'w cynorthwyo i sefydlu gwefannau. Dywedodd y Swyddog y cysylltwyd gydag Un Llais Cymru yn gofyn i'r corff hwnnw gynorthwyo Cynghorau Tref a Chymuned i symud ymlaen gyda'r arian sydd ar gael.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.**

**GWEITHREDU : Bod Pennaeth Dros Dro y Gwasanaethau Democrataidd yn cyflwyno diweddariad i gyfarfod o'r Pwyllgor Safonau yn y dyfodol.**

## 6 CWYNION YNGHYLCH YMDDYGIAD I OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU

**6A** Cyflwynwyd er gwybodaeth – adroddiad gan y Swyddog Gofal Cwsmer ar ffurf matrics wedi'i ddiweddaru mewn perthynas â chwynion ynghylch Cynghorwyr Sir.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad er gwybodaeth.**

**GWEITHREDU : Diweddariad gan y Swyddog Gofal Cwsmer ar unrhyw ddatblygiadau i'r cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor Safonau.**

**6B** Cyflwynwyd er gwybodaeth – adroddiad gan y Swyddog Gofal Cwsmer ar ffurf matrics wedi'i ddiweddaru mewn perthynas â chwynion ynghylch Cynghorwyr Cynghorau Tref a Chymuned.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad er gwybodaeth.**

**GWEITHREDU : Diweddariad gan y Swyddog Gofal Cwsmer ar unrhyw ddatblygiadau i'r cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor Safonau.**

## 7 PENDERFYNIADAU PANEL DYFARNU

Cyflwynwyd er gwybodaeth - adroddiad gan y Swyddog Gofal Cwsmer a Phapur gan y Gyfreithwraig (Llywodraethu Corfforaethol) yn cynnwys crynodeb o benderfyniadau a wnaed gan y Panel Dyfarnu rhwng 1 Ebrill, 2011 ac 1 Tachwedd, 2013.

Cyflwynodd y Gyfreithwraig (Llywodraethu Corfforaethol) adroddiad cefndir ar ganlyniadau'r achosion a ddygwyd gerbron y Panel Dyfarnu. Ym marn Aelodau'r Pwyllgor, mae Angen Canllawiau Cyffredinol ynghylch Dedfrydau/Cosbau wrth ddelio gyda chwynion.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.**

**GWEITHREDU :**

- **Gofyn i'r Fforwm Pwyllgorau Safonau ychwanegu at ei raglen:-**

  **(1) Yr ymarferoldeb o gysylltu gydag Ombwdsmon Gwasanaethau Cymru yn gofyn am gael canllawiau wedi eu teilwrio'n arbennig ar gyfer y Pwyllgor Safonau (yn seiliedig at ganllawiau Panel Dyfarnu Cymru) er mwyn penderfynu ar y cosbau - byddai hynny o fudd iddynt pan yn trafod cwynion; ac**

  **(2) Ymarferoldeb gofyn i'r Ombwdsmon ychwanegu at ei wefan, benderfyniadau a wnaed gan Bwyllgorau Safonau ac y cafwyd gwybod amdanynt.**

- **Diweddariad ar unrhyw ddatblygiadau pellach gan y Gyfreithwraig (Llywodraethu Corfforaethol) yn y cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor Safonau.**

## 8 COFRESTRU DIDDORDEBAU YMLAEN LLAW – DIWEDDARIADAU GAN GYNGHORWYR SIR

Cyflwynwyd – er gwybodaeth, ddiweddariad gan y Swyddog Gofal Cwsmer ynghylch cofrestru diddordebau ymlaen llaw.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.**

**GWEITHREDU: Dim**

## 9 CYNGHORAU TREF A CHYMUNED – DIWEDDARIAD AR Y CÔD YMDDYGIAD AC YMRWYMIADAU

Cyflwynwyd er gwybodaeth – ddiweddariad gan y Swyddog Gofal Cwsmer ynglŷn â'r uchod.

Nodwyd bod yr holl Gynghorau Tref/Cymuned bellach wedi ymateb ac wedi darparu copïau o'u Codau Ymddygiad ac Ymrwymiadau.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.**

**GWEITHREDU: Dim**

**10 HYFFORDDIANT AR GYFER AELODAU CYNGHORAU TREF A CHYMUNED – HYFFORDDIANT AR Y CÔD YMDDYGIAD**

**10A** Cyflwynwyd – adroddiad gan yr Uwch Swyddog Datblygu AD ar y sefyllfa gyfredol o ran hyfforddiant aelodau gan gynnwys cynnydd a wnaed o ran y Cynllun Blynyddol ar gyfer Datblygu Aelodau.

Dywedodd y Swyddog y trefnwyd cyfanswm o 34 o sesiynau ffurfiol rhwng mis Mai a mis Tachwedd ar gyfer Aelodau Etholedig ers eu hethol ac roedd manylion am y rhain wedi'u cynnwys yn Atodiad 1 a oedd ynghlwm wrth yr adroddiad. Caiff manylion am yr holl hyfforddiant a gynigiwyd/a fynychwyd eu cofnodi ar ffeiliau personol unigol yr Aelodau Etholedig. Fel rhan o'r ymrwymiad i gefnogi Aelodau Etholedig, mae hyfforddiant ar Adolygiadau Datblygiad Personol wedi cael ei gyflwyno a chafwyd hyfforddiant i gefnogi hyn ym mis Hydref gyda'r nod o gwblhau'r adolygiadau'n fuan ym mis Ionawr 2014.

Yn ogystal, rhoes y Swyddog adroddiad ar gais drafft a gyflwynwyd yn ddiweddar ar gyfer Siarter Cymru ar gyfer Cefnogi a Datblygu Aelodau. Cafodd y cais ymateb boddhaol gan CLILC er bod angen mwy o wybodaeth. Rhoddir sylw i'r materion hyn a bydd cais pellach yn cael ei anfon at CLILC yn y man.

Awgrymwyd y dylai Aelodau'r Pwyllgor Safonau, fel rhan o'u swyddogaeth o ddadansoddi Datganiadau Diddordeb yr Aelodau, fonitro, ar yr un pryd, lefel presenoldeb Aelodau Etholedig mewn sesiynau hyfforddiant.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.**

**GWEITHREDU: Bydd Aelodau Annibynnol y Pwyllgor Safonau'n dadansoddi lefelau presenoldeb Aelodau mewn Sesiynau Hyfforddiant fel rhan o'u swyddogaeth o ran dadansoddi Datganiadau o Ddiddordeb.**

**10B** Cyflwynwyd – adroddiad gan yr Uwch Swyddog Datblygu ar yr hyfforddiant a gynigiwyd i Gynghorau Tref a Chymuned a'r atborth a gafwyd.

Rhoes y Swyddog adroddiad ar yr hyfforddiant ar y Côd Ymddygiad a ddarparwyd gan Un Llais Cymru. Roedd yr atborth ysgrifenedig a gafwyd gan y sawl a oedd yn bresennol yn gadarnhaol yn gyffredinol ond mynegwyd pryderon gan aelodau'r Pwyllgor Safonau ynglŷn â'r modd y cyflwynwyd y sesiynau hyfforddi.

Awgrymwyd y gellid ystyried darparu rhywfaint o hyfforddiant mewnol ar gyfer Clercod y Cynghorau Cymuned ar y Côd Ymddygiad.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.**

**GWEITHREDU :**

- **Ystyried cynnal hyfforddiant mewnol ar gyfer Clercod Cynghorau Cymuned ar y Côd Ymddygiad.**
- **Bod yr Uwch Swyddog Datblygu'n anfon atborth ysgrifenedig at Un Llais Cymru ynghylch ansawdd yr hyfforddiant a ddarparwyd gan y corff hwnnw.**

**11** **CYNGHORAU TREF A CHYMUNED – HYFFORDDIANT AR Y CÔD YMDDYGIAD**

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Pennaeth Swyddogaeth – Busnes y Cyngor/Swyddog Monitro ar yr uchod.

Dywedodd y Swyddog ei bod yn amlwg bod diffyg cefnogaeth i'r sesiynau hyfforddi ar y Côd Ymddygiad oherwydd ychydig iawn fynychodd y 3 sesiwn a drefnwyd ar gyfer mis Medi. Nodwyd nad oedd Cyngor Tref Caergybi wedi'u cynnwys yn y sesiynau gan eu bod wedi gwneud eu trefniadau eu hunain gydag Un Llais Cymru.

Awgrymwyd y dylai'r Pwyllgor Safonau gymryd y camau isod:-

- Anfon llythyr ar ran y Pwyllgor yn diolch i'r Cynghorau Tref/Cymuned hynny a anfonodd 3 neu fwy o gynrychiolwyr i'r sesiwn hyfforddiant. Yn ychwanegol at hynny, gofyn iddynt rannu'r wybodaeth gydag aelodau eraill, yn enwedig ynghylch datganiadau o ddiddordeb a'r angen i'w cofrestru mewn cyfarfodydd ac achub ar y cyfle hefyd i atgyfnerthu'r neges ynghylch presenoldeb y we.

- Anfon llythyr at y Cynghorau hynny a anfonodd rai cynrychiolwyr gan ddiolch iddynt am fynychu'r hyfforddiant ond i fynegi siom nad oeddynt wedi cymryd yr holl lefydd a oedd wedi eu neilltuo ar eu cyfer. Yn ychwanegol at hynny, gofyn iddynt rannu'r wybodaeth gydag aelodau eraill, yn enwedig ynghylch datganiadau o ddiddordeb a'r angen i'w cofrestru mewn cyfarfodydd ac achub ar y cyfle hefyd i atgyfnerthu'r neges ynghylch presenoldeb y we.

- Anfon llythyr at y 13 Cyngor nad oeddynt wedi anfon unrhyw gynrychiolwyr i'r sesiynau hyfforddi i egluro'r canlyniadau posibl pe ceir cwyn. Yn ychwanegol at hynny, gofyn i'r Swyddogion ysgrifennu at yr Aelodau Lleol perthnasol yn mynegi pryder am y diffyg presenoldeb.

- Y tri llythyr i gynnwys cais eu bod yn cael eu cynnwys ar y rhaglen, eu trafod a'u cofnodi a bod y Pwyllgor Safonau'n derbyn cadarnhad ysgrifenedig

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad a'r argymhellion a nodir uchod.**

**GWEITHREDU :**

- **Bod yr argymhellion uchod yn cael eu gweithredu;**
- **Argymell fod cynrychiolydd o Aelodau Annibynnol y Pwyllgor Safonau yn mynychu Cyngor Tref Caergybi fel sylwedydd yn ystod y sesiwn hyfforddiant ar y Côd Ymddygiad;**
- **Y bydd y sesiynau hyfforddiant nesaf sydd wedi eu trefnu ar gyfer y Flwyddyn Newydd yn canolbwyntio yn bennaf ar hyfforddi Clercod y Cynghorau Cymuned ar y Côd Ymddygiad.**

**12** **ADOLYGU'R COFRESTRAU**

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Gyfreithwraig – Llywodraethu Corfforaethol mewn perthynas ag adolygiad blynyddol y Pwyllgor Safonau o'r cofrestrau.

Dywedodd y Swyddog y bwriedir i bob aelod annibynnol o'r Pwyllgor Safonau adolygu'r diddordebau a gofrestrwyd ymlaen llaw, y datganiadau a wnaed mewn cyfarfodydd a'r datganiadau o Roddion a Lletygarwch gan 6 Aelod Etholedig.

Roedd Aelodau'r Pwyllgor o'r farn y byddai'n fanteisiol pe gellid cysylltu gyda'r Aelodau Etholedig drwy e-bost i gael eglurhad ynglŷn ag unrhyw ymholiadau.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.**

**GWEITHREDU :**

- **Cymeradwyo'r llythyr a oedd wedi ei amgáu fel Atodiad 2 i'r adroddiad;**
- **Fod pob Aelod Annibynnol o'r Pwyllgor Safonau yn adolygu manylion 6 Aelod Etholedig ar y cofrestrau;**
- **Cynnal yr adolygiad rhwng diwedd Ionawr a diwedd Chwefror 2014 ac adrodd yn ôl ar y canfyddiadau i'r Gyfreithwraig – Llywodraethu Corfforaethol er mwyn caniatáu amser i lunio adroddiad ar gyfer y cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor Safonau ar 12 Mawrth, 2014.**

## 13 YMGYNGHORIAD Y PANEL ANNIBYNNOL AR GYDNABYDDIAETH ARIANNOL

Cyflwynwyd – adroddiad gan Bennaeth Busnes y Cyngor/Swyddog Monitro ar ganlyniad yr ymgynghoriad a drafodwyd yn y cyfarfod ym mis Medi mewn perthynas â thaliadau i Aelodau Cyfetholedig Awdurdodau Lleol.

**PENDERFYNWYD nodi cynnwys yr ohebiaeth a dderbyniwyd gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol.**

**GWEITHREDU: Dim**

**MR. MICHAEL WILSON**
**CADEIRYDD**

This page is intentionally left blank

PAPUR/ENCLOSURE
B

**MINUTES OF A MEETING OF THE
NORTH WALES STANDARDS COMMITTEES FORUM
HELD AT THE GUILDHALL, WREXHAM
ON MONDAY, 21 OCTOBER 2013**

**PRESENT:**

| | |
|---|---|
| Isle of Anglesey | Michael Wilson - Chair<br>Islwyn Jones – Vice Chair<br>Lynn Ball – Monitoring Officer |
| Flintshire | Patricia Jones - Chair |
| Gwynedd | Gwilym Ellis Evans - Chair<br>Sam Soysa – Vice Chair |
| Wrexham | Rob Dawson - Chair<br>Councillor Paul Pemberton<br>Community Councillor Geoff Edwards<br>Trevor Coxon – Monitoring Officer<br>Sioned Wyn Davies – Deputy Monitoring Officer<br>Jane Johnson – Senior Committee Officer |

**1 APOLOGIES**

Apologies for absence were submitted on behalf of Howie Roberts and Samuel Adams (Conwy), Ian Trigger and Rev. Wayne Roberts (Denbighshire), Gareth Owens (Flintshire), Ceri Nash (Wrexham) and Jane Eyton-Jones (Fire and Rescue Authority)

**2 WELCOME**

Mr Rob Dawson, Chair of Wrexham County Borough Council Standards Committee, welcomed those present to the first of the new style North Wales Standards Committees Forum.

**3 MINUTES**

The Minutes of the meeting of the North Wales Standards Committees Forum held on 20 May 2013 were submitted for approval.

Corrections

Page 1 – Appointment of Vice-Chair
That the references to 'Councillor Gwilym Ellis Evans' be amended to read 'Mr Gwilym Ellis Evans'

Page 6 – Indemnities for Members and Local Resolution
It was proposed that the words 'Members were advised' be deleted from the beginning of the second sentence of the first paragraph at the top of page six and that they be replaced with 'There was a view expressed ……'

**RESOLVED – That, subject to the above corrections, the Minutes of the meeting of the North Wales Standards Committees Forum held on 20 May 2013 be received and confirmed as a correct record.**

## 4 TRAINING SESSION

Mr Trevor Coxon, Monitoring Officer Wrexham gave a presentation on the Code of Conduct Training which he provided for Wrexham County Borough Councillors and Clerks and Town and Community Councillors in Wrexham, explaining why the training was provided, how the training was delivered with examples of materials used, the outcomes of the training which had resulted in the following benefits and drawbacks:

- Fewer complaints about Town and Community Councils
- Any complaints made fewer were upheld
- Clerks better informed and more confident
- Fewer issues for the Monitoring Officer
- Town and Community Councils more pro-active in seeking advice
- Less “fear” of the Code
- Town and Community Council Members and Clerks can view the Monitoring Officer as a cheap source of general legal advice
- Individual Town and Community Councils can make demands for personal training
- Potential conflict with advisory role to Standards Committee

During the discussion session reference was made to the following:

- Role of Standards Committee members. Committee members were invited to attend the training sessions, however, training still went ahead if none of the Committee members were able to attend as the principle of the training was to educate rather than police – prevention was better than cure.
- Problems being experienced regarding poor attendance at training events and whether the Minister should be encouraged to include a condition in the Code to make training enforceable. Mr Coxon said in Wrexham feedback received from the training events had been very positive indicating that attendees had found the events enjoyable and useful. Attendees had then informed others about how useful they had found the training. The County Borough Council had also identified Core Training which all County Borough Councillors were required to attend, one element was Code of Conduct Training, any Core Training attended by individual Members was recorded on their web page. Mr Coxon said that e-learning modules had been considered but interaction at training events was more beneficial. Training was also undertaken as soon as possible after elections as part of the induction process with refresher training being undertaken on an annual basis. The invitation letter to training could perhaps contain a reminder that the first questions asked by the Ombudsman was when the Councillor had signed up to the Code and when they had last attended training.
- Social media issues. Mr Coxon explained that Wrexham County Borough Council had adopted a protocol. This matter had not been discussed by the Standards Committee nor any work undertaken with Community Councils.

## 5 OPEN SESSION FOR ITEMS OF CURRENT INTEREST

(i) Promotion of Local Democracy and Public Engagement

Anglesey County Council's Standards Committee had requested that the Forum discuss the following paragraph, contained in a letter from Carl Sargeant AM, Minister for Housing and Regeneration, dated 28 January 2013.

> 'In a similar vein. principal councils are best placed to work with their community and town councils to enable the public to have access to information concerning the business of their local council and how to contact them. You will be aware that provisions to bring this in to place are included in the Local Government (Democracy) (Wales) Bill currently under consideration by the Assembly. I would like principal councils to work with their community councils to help take this forward.'

Although the issue of providing support to Town and Community Councils, with regard to their web presence was outside the remit of Standards Committees, Anglesey County Council's Standards Committee saw this development as an opportunity to enhance the awareness of Town and Community Council Members, as well as informing the public, by encouraging Town and Community Councils to include information about the Code of Conduct (which applied to their Members), how and with whom to lodge complaints and the role of local Standards Committees.

Gwynedd County Council agreed that Town and Community Councils websites should provide this additional information particularly in relation to the work of the Standards Committee and it was suggested that the public could be directed to approach Standards Committee Members if they had a complaint against a Community Councillor. Concern was raised that this may 'muddy the waters' if the complaint did go further and eventually ended up being referred to the Standards Committee by the Ombudsman.

It was also suggested that such complaints could in the first instance be referred to the Monitoring Officer to be settled under the Local Resolution Protocol/Procedure without any need for reference to the Ombudsman. The Monitoring Officer for Wrexham expressed concerns suggesting that it would be unwise for Monitoring Officers to become involved in all processes for Town and Community Councils as this could heavily dominate their time.

As many Town and Community Councils were being asked to take on additional services it was suggested that a toolkit similar to the one which had been developed for English authorities would be useful and whether One Voice Wales could develop a link to a similar toolkit on their website.

**RESOLVED – That One Voice Wales and the WLGA be encouraged to develop a similar resource along the lines of the toolkit provided for English authorities.**

(ii) Ombudsman Investigation Time

Gwynedd County Council had requested that this item be placed on the agenda to enable the Forum to discuss concerns they had in relation to the time it was taking the Ombudsman to complete an investigation and that, if felt appropriate, for the Forum to make representations to the Ombudsman.

Given that there would shortly be a new Ombudsman, Anglesey County Council felt it would be more appropriate to have early discussions with the new Ombudsman, when appointed, and possibly invite the new Ombudsman to a future meeting of the Forum.

Wrexham County Borough Council had not experienced any such delays.

**RESOLVED - That these issues be raised with the new Ombudsman once appointed, rather than make representations at the current time.**

(iii) Webcasting of Standards Committees

The Forum discussed whether it would be appropriate to webcast Standards Committee meetings and there was a general consensus against this.

(iv) Delegation of Dispensations

Wrexham County Borough Council queried the process for the granting of dispensations in other authorities and whether there was any scope for this to be delegated to an Officer or representatives of the Standards Committee.

It was noted that the Guidance specifically stated dispensations could only be given by the Standards Committee.

It was reported that in Anglesey the Standards Committee had a Sub-Committee which dealt with dispensations and in Gwynedd the Standards Committee had adopted a protocol/guidelines for the granting of dispensations, which they would be happy to share with other authorities.

## 6 FEEDBACK

There was general consensus that the new format for the Forum worked well but those present expressed their disappointment at the poor attendance.

## 7 DATE AND VENUE OF NEXT MEETING

**RESOLVED – That the next meeting be held in January 2014, venue to be confirmed.**

(The meeting ended at 3.56pm)

This page is intentionally left blank

PAPUR/ENCLOSURE
C

Un Llais Cymru / One Voice Wales
24 College Street
Amanford
SA18 3AF

Annwyl Foneddigion

**YNG.: Fforwm Pwyllgor Safonau Gogledd Cymru ("SCFNW")**

Fel y byddwch yn gwybod, mae Adran 55 Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) Cymru 2013 (sydd ar hyn o bryd yn disgwyl gorchymyn cychwyn) yn nodi bod yn rhaid i Gynghorau Cymuned beri bod gwybodaeth benodol ar gael yn electronig ar eu gwefannau (i gynnwys gwybodaeth am eu haelodau, cofnodion cyfarfodydd, archwiliadau a datganiadau o gyfrifon y Cyngor). Pan gyflwynir y gorchymyn cychwyn, bydd yn rhaid i nifer o Gynghorau Cymuned weithredu gwefan am y tro cyntaf ac ni fydd ganddynt fawr o brofiad o wneud hyn, os o gwbl. Mae'n ddiau, pan ddaw yn fater o gyflawni'r gofynion statudol yn y newidiadau, y byddwch yn rhoi cymorth i Gynghorau Cymuned ar sut i ddiweddaru eu gwefannau. Yn ychwanegol at hyn, rydym yn credu y byddai'n ddefnyddiol iawn pe gallech ddarparu gwybodaeth am y trefniadau moesegol canlynol sy'n berthnasol i Gynghorau Cymuned :-

(i) Manylion ar ofynion y côd ymddygiad fel y maent yn berthnasol i Gynghorwyr Cymuned;
(ii) Manylion ynglŷn â sut y gall aelodau o'r cyhoedd wneud cwynion yn erbyn Cynghorau Cymuned; a
(iii) Gwybodaeth am awdurdod (a) Pwyllgorau Safonau Awdurdodau Lleol, a (b) Panel Dyfarnu Cymru pan yn gwrando cwynion yn erbyn Cynghorau Cymuned.

Rydym yn awgrymu mai'r amser gorau i gynhyrchu'r wybodaeth hon fyddai pan gyflwynir y gorchymyn cychwyn.

Ar nodyn arall, mae'r SCFNW hefyd yn bryderus oherwydd y nifer o gwynion i awdurdodau lleol yng Ngogledd Cymru yn ymwneud â ffaeleddau gweinyddol Cynghorau Cymuned. Rydym yn credu y byddai'n ddefnyddiol iawn i Gynghorau Cymuned pe gallai Un Llais Cymru helpu gyda chyhoeddi Pecyn Cymorth fel yr un a ddarparwyd yn flaenorol gan y Bwrdd Safonau ar gyfer Lloegr i Gynghorau Cymuned, y gellir gweld copi ohono yma :- [INSERT LINK]

Rydym hefyd wedi anfon copi o'r llythyr hwn i Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru er gwybodaeth ac edrychwn ymlaen at glywed gennych mor fuan ag sy'n bosibl.

Cofion gorau

Yr eiddoch yn gywir,

<u>Cadeirydd Fforwm Pwyllgor Safonau Gogledd Cymru</u>

CC-017471-AP/20148003210

DRAFT

PAPUR/ENCLOSURE
CH

**ADRAN Y DIRPRWY PRIF WEITHREDWRAIG**
**DEPARTMENT OF THE DEPUTY CHIEF EXECUTIVE**

**LYNN BALL LL.B., (Hons.)Cyfreithiwr/Solicitor**
**PENNAETH SWYDDOGAETH (BUSNES Y CYNGOR) / SWYDDOG MONITRO**
**HEAD OF FUNCTION (COUNCIL BUSINESS) / MONITORING OFFICER**

**CYNGOR SIR YNYS MON /**
**ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL**
**Swyddfa'r Sir / Council Offices**
**LLANGEFNI**
**Ynys Môn / Anglesey**
**LL77 7TW**

**DX: 701771 – LLANGEFNI**

**ffôn / tel: (01248) 752563**
**ffacs / fax: (01248) 752132**
**E-Bost – E-mail:** APXCE@anglesey.gov.uk

**Ein Cyf – Our Ref.** AP/EC/CC-017471-AP
**Eich Cyf – Your Ref.**

Ombudsmon Cymru
1 Ffordd yr Hen Gae
Pencoed
CF35 5LJ

DRAFT

Annwyl Foneddigion

**YNGHYLCH: Pwyllgor Safonau Cyngor Sir Ynys Môn**

Yn ystod cyfarfod o Bwyllgor Safonau Ynys Môn, cytunwyd y byddai o fudd i'r holl bwyllgorau safonau ar draws Cymru pe gallai'r Ombwdsmon gynorthwyo i ddarparu canllawiau ynghylch sut i benderfynu ar y cosbau y dylid eu rhoddi i Gynghorwyr sy'n torri'r Côd Ymddygiad. Yn arbennig felly, roedd y Pwyllgor Safonau o'r farn y gallai'r Ombwdsmon gynorthwyo trwy ddarparu'r dogfennau isod:-

1. Canllawiau cynhwysfawr ar y ffactorau y dylai Pwyllgor Safonau eu hystyried pan yn penderfynu ar y gosb i'w rhoddi (gan gynnwys astudiaethau achos ac enghreifftiau). Mae Panel Dyfarnu Cymru wedi cyhoeddi canllawiau ynghylch cosbau ar ei wefan gan nodi'r ffactorau y byddant yn eu hystyried wrth benderfynu ar y gosb ac mae'r Pwyllgor Safonau'n teimlo y byddai rhywbeth ar yr un ffurf yn ddefnyddiol.

2. Copi ar wefan yr Ombwdsmon yn nodi'r penderfyniadau hynny a wnaed gan Bwyllgorau Safonau ledled Cymru mewn perthynas â materion yn ymwneud â chodau ymddygiad. Ar hyn o bryd, nid yw hyn ar gael yn unman a byddai o gryn ddefnydd i Bwyllgorau Safonau ar hyd Cymru.

Edrychaf ymlaen at glywed gennych cyn gynted ag sy'n bosibl.

Yn gywir iawn

<u>Michael Wilson</u>
<u>Cadeirydd y Pwyllgor Safonau</u>

CC-017471-AP/202166

# PAPUR/ENCLOSURE D

**CWYNION CYFOES I AC YMHOLIADAU GAN YR OMBWDSMON – "O" -YNGLŶN Â CHYNGHORWYR CYNGOR SIR YNYS MÔN**

**UP TO DATE COMPLAINTS TO AND INVESTIGATIONS BY THE OMBUDSMAN – "O" -REGARDING ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCILLORS DIWEDDARIAD / UPDATED– [X]**

**PWYLLGOR SAFONAU – 12.03.2014 – STANDARDS COMMITTEE**

| **Enw'r Cynghorydd**<br><br>**Name of Councillor** | **Enw'r Achwynydd**<br><br>**Name of Complainant** | **Cyfeirnod y Ffeil**<br><br>**File Reference**<br>**(i) Un ni/Ours**<br>**(ii) "O"** | **Dyddiad y Gŵyn - "O"**<br><br>**Complaint date - "O"** | **Disgrifiad Byr o'r Gŵyn**<br><br>**Description of Complaint** | **Adrannau'r Côd**<br><br>**Sections of the Code** | **Canlyniad Ymholiad "O" a'r dyddiad neu'r sefyllfa gyfredol**<br>**Result of "O" Investigation and date or the current situation** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 1. Cynghorydd Sir / County Councillor | Prif Weithredwr / Chief Executive | (i) 017339<br>(ii) 201304118 | 29.10.13 | Delio gyda mater pan roedd yna fuddiant personol ac o bosib bod hwnnw wedi mynd yn fuddiant sydd yn rhagfarnu / Dealing with a matter when there was a personal interest which may then have become a prejudicial interest.<br><br>Honnir bod y cynghorydd wedi bod yn gysylltiedig â gwerthu darn o dir yr oedd y Cyngor yn berchen arno. Dywed ef mai helpu etholwr a oedd yn ceisio prynu'r tir ydoedd, fodd bynnag, honnir bod yr etholwr â chyswllt personol agos gyda'r Cynghorydd ac o'r herwydd, mae'n bosib fod ganddo ddiddordeb personol yn unol â pharagraff 10(2)(c)(i) y Côd Ymddygiad i Aelodau ac y dylai fod wedi datgelu'r diddordeb hwnnw oherwydd mae'n debygol o fod yn ddiddordeb sy'n rhagfarnu yn unol â pharagraff 12(1). | Rhan / section 10(2)(c ) (i)<br>14(1)(a), (c), (d) and (e) | 17.01.2014 – Ymchwilydd "O" wedi bod yn adeiladau'r Cyngor i gynnal cyfweliadau gyda swyddogion ac rydym yn disgwyl am ddiweddariad pellach.<br><br>17.01.2014 – "O" investigator attended council premises to conduct interviews with officers and we await a further update. |

Tudalen 20

| **Enw'r Cynghorydd**<br><br>**Name of Councillor** | **Enw'r Achwynydd**<br><br>**Name of Complainant** | **Cyfeirnod y Ffeil**<br><br>**File Reference**<br>**(i) Un ni/Ours**<br>**(ii) "O"** | **Dyddiad y Gŵyn - "O"**<br><br>**Complaint date - "O"** | **Disgrifiad Byr o'r Gŵyn**<br><br>**Description of Complaint** | **Adrannau'r Côd**<br><br>**Sections of the Code** | **Canlyniad Ymholiad "O" a'r dyddiad neu'r sefyllfa gyfredol**<br>**Result of "O" Investigation and date or the current situation** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | The allegations are that the councillor was involved in the sale of land owned by the Council. He claims to have been providing assistance to a elector in attempting to purchase the land, however, it is alleged that the elector is of a close personal association to the councillor and so he may have a personal interest under paragraph 10(2)(c)(i) of the Members' Code of Conduct which should have been disclosed as it is likely to be a prejudicial interest of paragraph 12(1). | | |
| 2. Cynghorydd Sir / County Councillor | Cynghorydd Cymuned / Community Councillor | (i) 017368<br>(ii) 201304372 | 13.11.13 | Dwyn anfri ar y swydd neu'r awdurdod, methiant i ddangos parch at eraill a bwlio ac achosi gofid i eraill. / Brining the office or authority into disrepute, failure to show respect for others and bullying and harassment of others.<br><br>Yr honiadau yn y mater hwn yw fod y cynghorydd wedi bwlio ac achosi gofid i'r achwynydd mewn cyfarfod o'r cyngor cymuned drwy bwyntio ati a gweiddi arni a chyflawni gweithredoedd o gamfynegiant bwriadol. | Rhan/ Section 6(1)(a) , 4 (b) & 4 (c) | 23.-1.2014 – llythyr gan "O" yn cadarnhau fod ymchwiliad yn mynd rhagddo yn dilyn apêl a gyflwynwyd gan yr achwynydd yn erbyn penderfyniad gwreiddiol "O" i beidio ag ymchwilio i'r mater.<br><br>23.01.2014 – letter from "O" confirming that an investigation is underway following on from an appeal raised by complainant from "O"'s original decision not to investigate. |

| **Enw'r Cynghorydd**<br><br>**Name of Councillor** | **Enw'r Achwynydd**<br><br>**Name of Complainant** | **Cyfeirnod y Ffeil**<br><br>**File Reference**<br>**(i) Un ni/Ours**<br>**(ii) "O"** | **Dyddiad y Gŵyn - "O"**<br><br>**Complaint date - "O"** | **Disgrifiad Byr o'r Gŵyn**<br><br>**Description of Complaint** | **Adrannau'r Côd**<br><br>**Sections of the Code** | **Canlyniad Ymholiad "O" a'r dyddiad neu'r sefyllfa gyfredol**<br>**Result of "O" Investigation and date or the current situation** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | The allegations in this matter are that the councillor behaved towards the complainant in a bullying and harassing way at a meeting of the community council by pointing and shouting at her and committed acts of deliberate misrepresentation. | | |

Tudalen 22

# PAPUR/ENCLOSURE DD

**CWYNION I AC YMHOLIADAU GAN YR OMBWDSMON – "O" -YNGLŶN Â CHYNGHORWYR CYMUNEDOL A THREF**

**COMPLAINTS TO AND INVESTIGATIONS BY THE OMBUDSMAN – "O" -REGARDING TOWN AND COMMUNITY COUNCILLORS**
**Diweddariad – [x] - Update**

**Pwyllgor Safonau- 12 Mawrth 2014/ Standards Committee 12 March 2014**

| **Enw'r Cynghorydd**<br><br>**Name of Councillor** | **Enw'r Achwynydd**<br><br>**Name of Complainant** | **Cyfeirnod y Ffeil**<br><br>**File Reference**<br>**(i) Un ni/Ours**<br>**(ii) "O"** | **Dyddiad y Gŵyn - "O"**<br><br>**Complaint date - "O"** | **Disgrifiad Byr o'r Gŵyn**<br><br>**Short Description of Complaint** | **Canlyniad Ymholiad "O" a'r dyddiad neu'r sefyllfa gyfredol**<br>**Result of "O" Investigation and date or the current situation** | **Datblygiad Pellach**<br>**Further Development** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cynghorydd Cymuned / Community Councillor<br><br>Llanbadrig | Cynghorydd Cymuned / Community Councillor<br><br>Llanbadrig | (i) 17398<br>(ii) 201305202 | 20.11.2013 | Honiad o dorri'r darpariaethau isod yn y côd ymddygiad:-<br><br>(7(a)) Ceisio sicrhau mantais.<br><br>(11(1)) Peidio â datgan diddordeb personol.<br><br>(14(1)(a)) Peidio â gadael cyfarfod petai ganddo/ganddi ddiddordeb sy'n rhagfarnu.<br><br>(4(a)) Cyfle cyfartal.<br><br>(4(b)) Parch.<br><br>(6(1)) Dwyn anfri ar enw da'r Cyngor.<br><br>(8(a)) Gwrthrychedd.<br><br>Alleged breach of the following provisions of the code of conduct:-<br><br>(7(a)) Trying to secure an advantage.<br><br>(11(1)) Not declaring a personal interest.<br><br>(14(1)(a)) Not withdrawing if having a prejudicial interest.<br><br>(4(a)) Equality of opportunity.<br><br>(4(b)) Respect.<br><br>(6(1)) Disrepute.<br><br>(8(a)) Objectivity | 5.12.2013 - "O" yn mynd i ymchwilio<br><br>5.12.2013 - "O" is going to investigate | |

Tudalen 24

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cynghorydd Cymuned / Community Councillor<br><br>Aberffraw | Un o'r trigolion lleol<br><br>Local resident | 017525 | 22.01.2014 | - Diffyg gofal ac ystyriaeth o eraill<br><br>- Lack of due care and consideration for others | 22.01.2014 – "O" yn penderfynu a ddylid ymchwilio ai peidio.<br><br>22.01.2014 – "O" is deciding whether to investigate. | "O" ddim yn mynd i ymchwilio.<br><br>"O" is not going to investigate |
| Cynghorydd Tref a Chymuned/Town and Community Councillor.<br><br>Caergybi Holyhead | Gŵr busnes lleol<br><br>Local businessman | 017588 | 07.02.2014 | - Defnyddio ei swydd fel cynghorydd i'w fantais ei hun.<br>- Dangos amharch ac achosi gofid mewn gohebiaeth.<br><br>- Using his position t as councillor to his own benefit.<br>- Disrespect and harassment within correspondence. | 07.01.2014 – O yn adolygu'r papurau.<br><br>07.01.2014 – O is reviewing papers. | "O" ddim yn mynd i ymchwilio.<br><br>"O" is not going to investigate |

This page is intentionally left blank

# PAPUR/ENCLOSURE E

# Cyngor Sir Ynys Môn / Isle of Anglesey

| | |
|---|---|
| **Pwyllgor** | **Pwyllgor Safonau** |
| **Dyddiad y Cyfarfod** | **12 Mawrth 2014** |
| **Teitl yr Adroddiad** | **Casgliadau Panel Dyfarnu Cymru**<br>**13 Rhagfyr 2013 i 12 Mawrth 2014** |
| **Adroddiad gan** | **Cyfreithwraig Llywodraethu Corfforaethol** |
| **Pwrpas yr Adroddiad** | **Rhoi gwybodaeth ar y materion y bu Panel Dyfarnu Cymru'n ymwneud â nhw** |

## 1.0 Rhagarweiniad a Chefndir

Sefydlwyd Panel Dyfarnu Cymru o ganlyniad i Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 ac mae iddo ddwy swyddogaeth statudol:-

- Cynnal tribiwnlysoedd achos neu dribiwnlysoedd achos interim i ystyried adroddiadau gan yr Ombwdsmon yn dilyn ymchwiliadau i honiadau fod aelodau wedi methu â chydymffurfio gyda chôd ymddygiad eu hawdurdod; a
- Ystyried apeliadau gan aelodau yn erbyn penderfyniadau Pwyllgorau Safonau Awdurdodau Lleol eu bod wedi torri'r côd ymddygiad.

Mae'r adroddiad hwn yn ymwneud â phenderfyniadau a wnaed gan y Panel Dyfarnu rhwng 13 Rhagfyr 2013 a 12 Mawrth 2014 a'r bwriad yw cyflwyno crynodeb ffeithiol o'r materion a ddygwyd gerbron y panel Dyfarnu. Ni fydd yn disodli'r adroddiad a gyflwynir i'r Pwyllgor pan fydd cwyn sy'n ymwneud â Chyngor Sir Ynys Môn wedi bod gerbron y Panel Dyfarnu.

## 2.0 Penderfyniadau a wnaed rhwng 13.12.2013 a dyddiad yr adroddiad hwn

22.11.13 - Cyng Michael Jones – APW/004/2012-013/AT
23.01.2013 – Cyng Aeron M Jones – APW/006/2012-013/AT

Gweler y Tabl isod sy'n cynnwys crynodeb o'r materion y rhoddwyd sylw iddynt a chanlyniadau'r achosion uchod

| **Enw** | **Crynodeb o'r Ffeithiau** | **Darpariaethau perthnasol y Côd** | **Crynodeb o'r Penderfyniad** | **Casgliadau** |
|---|---|---|---|---|
| **Y Cyn Gynghorydd Michael Jones**<br><br>**(Cyngor Cymuned Pentyrch)** | Yr honiadau oedd bod Mr Jones wedi torri Côd Ymddygiad Cyngor Cymuned Pentyrch drwy:-<br><br>(i) Fethu a dangos parch ac ystyriaeth tuag at eraill;<br>(ii) Bwlio ac achosi gofid i berson arall; a<br>(iii) Methiant i ddatgan buddiant personol a buddiant sy'n rhagfarnu mewn perthynas â materion a oedd gerbron y Cyngor.<br><br>Honnwyd bod Mr Jones yn aml wedi amharu ar fusnes y Cyngor drwy godi materion mewn modd a oedd yn aneglur a bod ei sylwadau'n anwybyddu'r rheolau sefydlog a phenderfyniadau blaenorol y Cyngor. Mae'r ymddygiad hwn wedi bod yn mynd ymlaen ers dwy | Torri paragraffau 4(b), 4(c), 11 (1) a 14(1) (a) y côd ymddygiad. | Tra'n derbyn y diffiniad eang o "sylwadau gwleidyddol" sy'n golygu lefel uwch o ddiogelwch yn erbyn ymyrryd heb gyfiawnhad â hawl person i ryddid mynegiant dan Erthygl 10 Deddf Hawliau Dynol 1998, nid oedd y sylwadau wedi eu cyfeirio at wleidydd ond at glerc sy'n cael ei gyflogi gan y Cyngor ac sydd, o'r herwydd, â hawl i gael ei ddiogelu i raddau rhag ymddygiad amharchus a gofidus.<br><br>Dywedodd Mrs Jones ar ran yr ombwdsmon bod tebygrwydd rhwng yr achos hwn ac achos y Cynghorydd Durkin – Cyngor Sir Ynys Môn (ymddygiad amharchus tuag at a bwlio ac achosi gofid i swyddogion y | Cefnogwyd penderfyniadau y Pwyllgor Safonau. |

Tudalen 29

| Enw | Crynodeb o'r Ffeithiau | Darpariaethau perthnasol y Côd | Crynodeb o'r Penderfyniad | Casgliadau |
|---|---|---|---|---|
| | flynedd ac roedd yn cael ei amgyffred fel ymddygiad amharchus a bod y Cynghorydd yn achosi gofid i'r clerc a'r cadeirydd ac yn eu bwlio.<br><br>Honnwyd hefyd bod Mr Jones yn herio cywirdeb y cofnodion yn gyson er bod y newidiadau a awgrymwyd ganddo wedi cael eu hystyried ac naill ai wedi cael eu gwrthod neu eu derbyn, hyd yn oed os nad oedd ef wedi bod yn bresennol yn y cyfarfod.<br><br>Honnwyd bod ei ddull o gyfathrebu gydag aelodau a staff y Cyngor Cymuned yn flinderus, o natur bwlio ac yn amharchus a'i fod yn aml yn beirniadu gwaith y clerc yn uniongyrchol. | | cyngor).<br><br>Casgliad y Tribiwnlys Apêl drwy benderfyniad unfrydol oedd bod Mr Jones, drwy ei weithredoedd (a nodir uchod), wedi torri paragraffau 4(b), 4(c), 11(1) a 14(1)(a) y Côd Ymddygiad a bod y Tribiwnlys yn cefnogi'n unfrydol y penderfyniad a wnaed gan y Pwyllgor Safonau i gosbi Mr Jones. | |
| Cyng Aeron M Jones | Dim ar gael | Torri paragraffau 4(b) a 6(1)(a), 6(2) a 7(a) y côd ymddygiad. | Dim ar gael | Cefnogwyd penderfyniad y Pwyllgor Safonau. |

# PAPUR/ENCLOSURE F

| **Cyngor Tref / Cymuned**<br><br>(Llythyr 1) | **Rheiny sydd wedi gyrri 3 neu mwy o gynrychiolwyr = 5** |
|---|---|
| Llanerchymedd | 3 |
| Pentraeth | 3 |
| Trewalchmai | 3 |
| Cyngor Tref Llangefni | 5 |
| Llangoed & Penmon | 5 |

17471/196469

| **Cyngor Tref / Cymuned**<br><br>(Llythyr 2) | **Rheiny sydd wedi gyrru rhai cynrychiolwyr = 21** |
|---|---|
| Aberffraw | 2 |
| Cyngor Tref Amlwch | 2 |
| Bodffordd | 2 |
| Bodorgan | 1 |
| Bryngwran | 1 |
| Llanbadrig | 1 |
| Llanddaniel Fab | 1 |
| Llanddyfnaan | 2 |
| Llaneilian | 2 |
| Llanfaelog | 2 |
| Llanfaethlu | 1 |
| Llanfair Mathafarn Eithaf | 2 |
| Llanfairpwll ( hefyd yn aelod o'r Pwyllgor Safonau) | 1 |
| Llanfihangelesceifiog | 1 |
| Llanidan | 1 |
| Mechell | 2 |
| Cyngor Tref Porthaethwy | 2 |
| Rhoscolyn | 2 |
| Trearddur | 2 |
| Tref Alaw | 1 |
| Valley | 1 |

17471/196469

| **Cyngor Tref / Cymuned**<br><br>(Llythyr 3) | **Rheiny na’th fethu mynychu  = 13** |
|---|---|
| Cyngor Tref Biwmares | Nid oedd y dyddiadau yn gyfleus - gofynnwyd a oedd  y Cyngor am drefnu hyfforddiant pellach |
| Bodedern | Roedd y Clerc yn mynd i fynychu ond wedi methu gwneud ar y funud olaf. |
| Cwm Cadnant | Clerc yn nodi nad oedd unrhyw Gynghorydd wedi rhoi enw ymlaen |
| Cylch y Garn | Hysbysebu am 5 cynghorydd newydd – neb ar gael i fynychu – gofynnwyd a oedd  y Cyngor am drefnu hyfforddiant pellach |
| Llanddona | Clerc yn nodi nad oedd unrhyw Gynghorydd wedi rhoi enw ymlaen |
| Llaneurgad | Ni dderbyniwyd unrhyw ymateb |
| Llanfachraeth | Clerc yn nodi nad oedd unrhyw Gynghorydd wedi rhoi enw ymlaen |
| Llanfair yn Newubwll | Ni dderbyniwyd unrhyw ymateb |
| Llangristiolus | Roedd y Clerc yn mynd i fynychu ond wedi methu gwneud ar y funud olaf. |
| Moelfre | Ni dderbyniwyd unrhyw ymateb |
| Penmynydd & Star | Clerc yn nodi nad oedd unrhyw Gynghorydd wedi rhoi enw ymlaen |
| Rhosybol | Ni dderbyniwyd unrhyw ymateb |
| Rhosyr | Nid oedd y dyddiadau yn gyfleus |

**ADRAN Y DIRPRWY PRIF WEITHREDWRAIG**
**DEPARTMENT OF THE DEPUTY CHIEF EXECUTIVE**

**LYNN BALL LL.B., (Hons.)Cyfreithiwr/Solicitor**
**PENNAETH SWYDDOGAETH (BUSNES Y CYNGOR) / SWYDDOG MONITRO**
**HEAD OF FUNCTION (COUNCIL BUSINESS) / MONITORING OFFICER**

MICHAEL WILSON
CHAIR OF THE STANDARDS COMMITTEE
CYNGOR SIR YNYS MON /
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfa'r Sir / Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn / Anglesey
LL77 7TW

DX: 701771 – LLANGEFNI

ffôn / tel: 07801446330
ffacs / fax: (01248) 752132

E-Bost – E-mail: mwxcs@anglesey.gov.uk

Llythyr 1 / Letter 1

10/2/2014

Ein Cyf – Our Ref. M B/EC/CC-015794-LB
Eich Cyf – Your Ref.

Annwyl

**HYFFORDDIANT CÔD YMDDYGIAD I AELODAU CYNGOR TREF A CHYMUNED**

Ymhellach i'r gwahoddiadau a anfonwyd allan y flwyddyn ddiwethaf mewn perthynas a Hyfforddiant Côd Ymddygiad i Aelodau Cyngor Tref a Chymuned, hoffwn ar ran y Pwyllgor Safonau, eich llongyfarch ar eich cofnod presenoldeb ardderchog yn y Cyngor a'ch cefnogaeth i'r sesiynau a gynhaliwyd gan UnLlais Cymru yn ystod haf 2013.

Bydd trefniadau ychydig yn wahanol yn cael eu cynnig y flwyddyn hon, gyda hyfforddiant yn canolbwyntio ar y Clercod; yn rhoi sylw i egwyddorion allweddol y Côd Ymddygiad, yn arbennig yr ymrwymiad i drin eraill â pharch ac ystyriaeth a'r angen i ddeall y gwahaniaeth rhwng diddordebau personol a rhagfarnus, a beth sydd angen ei ddatgan, pryd a sut.

Byddai'r Pwyllgor Safonau yn ddiolchgar iawn i chi pe gallech annog eich Clerc i fynychu'r hyfforddiant hwn ac wedi hynny byddem yn

Dear

**CODE OF CONDUCT TRAINING FOR TOWN AND COMMUNITY COUNCIL MEMBERS**

Further to invitations sent out last year in relation to Code of Conduct training for Town and Community Council Members I would like, on behalf of the Standards Committee, to congratulate you on your Council's excellent attendance record and support for the sessions conducted by One Voice Wales during the summer of 2013.

This year there will be slightly different arrangements offered, with training to be focused on the Clerks; concentrating on the key principles of the Code of Conduct, especially the obligation to treat others with respect and consideration and the need to understand the distinction between personal and prejudicial interests, and what needs to be declared, when and how.

The Standards Committee would be most grateful if you would encourage your Clerk to attend this training and thereafter we

would request that the Clerks share the

gofyn i'r Clercod rannu'r hyfforddiant y maent wedi ei dderbyn gyda rhai eraill ar eu Cyngor/Cynghorau.

Bydd y Pwyllgor Safonau yn ysgrifennu i chi yn y man mewn perthynas â'r hyfforddiant arfaethedig hwn.

Er mwyn ein helpu gyda darparu hyfforddiant y flwyddyn hon, byddem yn ddiolchgar iawn i chi pe gallech ddod yn ôl atom gydag unrhyw awgrymiadau all fod gennych ar unrhyw faterion, yn cynnwys y Côd, y byddech yn hoffi i ni roi sylw iddynt yn benodol yn yr hyfforddiant . Os oes gennych unrhyw awgrymiadau byddem yn hoffi clywed gennych erbyn 30 Mai 2014.

Edrychwn ymlaen i dderbyn eich cefnogaeth barhaol.

Unwaith yn rhagor, llawer o ddiolch

Yr eiddoch yn gywir

training which they have received with others on their Council/s.

The Standards Committee will write to you in due course in relation to this proposed training.

To assist us with the provision of this year's training, we would be very grateful if you could come back to us with any suggestions you may have, on any issues involving the Code, which you would like us to address specifically in the training. If you have any suggestions we would be grateful to hear from you by the 30th May 2014.

We look forward to receiving your continued support.

Once again many thanks

Yours sincerely

Michael Wilson
Cadeirydd y Pwyllgor Safonau / Chair of the Standards Committee

**ADRAN Y DIRPRWY PRIF WEITHREDWRAIG**
**DEPARTMENT OF THE DEPUTY CHIEF EXECUTIVE**

**LYNN BALL LL.B., (Hons.)Cyfreithiwr/Solicitor**
**PENNAETH SWYDDOGAETH (BUSNES Y CYNGOR) / SWYDDOG MONITRO**
**HEAD OF FUNCTION (COUNCIL BUSINESS) / MONITORING OFFICER**

**CYNGOR SIR YNYS MON /**
**ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL**
**Swyddfa'r Sir / Council Offices**
**LLANGEFNI**
**Ynys Môn / Anglesey**
**LL77 7TW**

**DX: 701771 – LLANGEFNI**

**ffôn / tel: (01248) 752563**
**ffacs / fax: (01248) 752132**
**E-Bost – E-mail:** APXCE@anglesey.gov.uk

Llythyr 2 / Letter 2

12/2/2014

**Ein Cyf – Our Ref.** AP/EC/CC-015794-LB
**Eich Cyf – Your Ref.**

Annwyl

**HYFFORDDIANT AR Y CÔD YMDDYGIAD I AELODAU CYNGOR TREF A CHYMUNED**

Mae Pwyllgor Safonau'r Cyngor Sir wedi gofyn i mi ysgrifennu atoch ymhellach ynglŷn â gwahoddiadau a anfonwyd i chi y flwyddyn ddiwethaf, yn cynnig hyfforddiant ar y Côd Ymddygiad i Aelodau Cynghorau Cymuned. Trefnwyd y sesiynau hyfforddi gan y Pwyllgor Safonau a darperir hwy gan Un Llais Cymru.

Bu'r Pwyllgor Safonau yn ddiweddar yn adolygu presenoldeb yn y sesiynau hyfforddi ac roeddent yn siomedig i nodi bod eich Cyngor, tra'n darparu peth presenoldeb yn yr hyfforddiant, heb gymryd y tri lle oedd yn cael eu cynnig.

Mae hyfforddiant ar y Côd Ymddygiad o fudd i'r holl Aelodau ac y mae'n rhaid iddynt, fel yr ydych yn gwybod, gadw at y Cod wrth gyflawni eu rôl fel Cynghorwyr.

Weithiau bydd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC) yn cynnal ymchwiliadau i ymddygiad Aelodau

Dear

**CODE OF CONDUCT TRAINING FOR TOWN AND COMMUNITY COUNCIL MEMBERS**

The County Council's Standards Committee has asked me to write to you further about invitations sent out last year, offering Code of Conduct training for Community Council Members. The training sessions were arranged by the Standards Committee and provided by One Voice Wales.

The Standards Committee recently reviewed attendance at the training sessions and were disappointed to note that your Council, while providing some attendance at the training, did not take up the three places offered.

Training on the Code of Conduct is beneficial to all Members who, as you know, are required to abide by the Code in conducting their role as Councillors.

The Public Services Ombudsman for Wales (PSOW) sometimes carries out investigations into the conduct of

Cynghorau Cymuned ac un ffactor y bydd yn aml iawn yn ei gymryd i ystyriaeth wrth benderfynu a fydd yn dilyn cwynion hyd at roi cosb, yw ymrwymiad Aelod i hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad.

Yn ychwanegol, mae'n debyg y byddwch yn gwybod y bydd yna yn fuan ofyniad statudol i bob Cyngor Cymuned fod â phresenoldeb ar y we. Mae Fforwm Pwyllgorau Safonau Gogledd Cymru, sy'n cynnwys cynrychiolwyr o bob un o Bwyllgorau Safonau Gogledd Cymru, sydd hefyd ag awdurdodaeth dros Gynghorau Sir a Chynghorau Tref a Chymuned, yn ysgrifennu at Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac Un Llais Cymru gyda chais bod gwefannau pob Cyngor Cymuned yn cynnwys gwybodaeth safonol ynglŷn â materion yn ymwneud â'r Côd Ymddygiad a rôl y Pwyllgor Safonau a'r OGCC. Mae hyn yn debyg o arwain at gynnydd mewn sgriwtini gan y cyhoedd ar gydymffurfiaeth Aelodau â'r Côd.

Er mwyn sicrhau bod Aelodau Cynghorau Cymuned wedi eu paratoi'n dda, y flwyddyn hon fe fydd trefniadau hyfforddi gwahanol yn cael eu cynnig, gyda sesiynau hyfforddi wedi eu llunio ar gyfer Clercod Cynghorau Cymunedol; yn canolbwyntio ar egwyddorion allweddol y Côd Ymddygiad, yn arbennig agweddau cyfreithiol yr ymrwymiad i drin eraill â pharch ac ystyriaeth a'r angen i ddeall y gwahaniaeth rhwng diddordebau personol a rhagfarnus, a beth sydd angen ei ddatgan, pryd a sut.

Byddai'r Pwyllgor Safonau yn ddiolchgar pe gallech annog eich Clerc i fynychu'r hyfforddiant hwn ac wedi hynny byddem yn gofyn i'r Clercod rannu'r hyfforddiant y maent wedi ei dderbyn gydag eraill ar eu Cyngor/au.

Bydd y Pwyllgor Safonau yn ysgrifennu atoch yn y man mewn perthynas â'r hyfforddiant arfaethedig hwn ac er mwyn ein helpu, rydym yn gofyn i chi anfon yn ôl atom gydag unrhyw awgrymiadau fydd gennych, ar unrhyw faterion arbennig sy'n ymwneud â'r Côd, ac y byddech yn hoffi i ni roi sylw

Community Council Members and a factor which he often takes into consideration, in deciding whether to pursue complaints to sanction, is a Member's commitment to Code of Conduct training.

In addition, you will probably be aware that there will soon be a statutory requirement for all Community Councils to have a web presence. The North Wales Standards Committee Forum, which includes representatives of all the North Wales Standards Committees, who have jurisdiction over County Councils and Town and Community Councils, is writing to the WLGA and One Voice Wales to request that all Community Council websites include standard information regarding matters concerning the Code of Conduct and the role of the Standards Committee and the PSOW. This is likely to lead to an increase in scrutiny by the public of Members' compliance with the Code.

To ensure that Community Council Members are well prepared, this year there will be different training arrangements offered, with training sessions devised for Community Council Clerks; concentrating on the key principles of the Code of Conduct, especially the legal aspects of the obligation to treat others with respect and consideration and the need to understand the distinction between personal and prejudicial interests, and what needs to be declared, when and how.

The Standards Committee would be grateful if you would encourage your Clerk to attend this training and thereafter we would request that the Clerks share the training which they have received with others on their Council/s.

The Standards Committee will write to you in due course in relation to this proposed training and to assist us, we ask that you come back to us with any suggestions that you may have, on any particular issues involving the Code, which you would like us to address in the training. It would be

iddynt yn yr hyfforddiant. Byddai o gymorth i ni glywed gennych gyda'ch awgrymiadau erbyn 30 Mai, 2014.

Er mwyn sicrhau bod Aelodau eich Cyngor Cymuned yn rhoi ystyriaeth ddyledus i'r hyfforddiant hwn, rydym am ofyn i chi roi'r llythyr hwn ar raglen y cyfarfod nesaf o'ch Cyngor Cymuned, i'w drafod. Byddwn hefyd yn gofyn i chi anfon copi o'r eitem ar y rhaglen a'r cofnodion i mi d/o Swyddog Monitro'r Cyngor fel a ganlyn: -

Miss Lynn Ball, Pennaeth Swyddogaeth Cyfreithiol a Gweinyddu/Swyddog Monitro, Cyngor Sir Ynys Môn, Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni, Ynys Môn LL77 7TW.

Edrychaf ymlaen i glywed gennych.

Cofion gorau,

Yr eiddoch yn gywir

helpful to hear from you with your suggestions by the 30th May 2014.

To ensure that your Community Council Members give due consideration to this training issue, we would also ask that you place this letter on the agenda of the next meeting of your Community Council, for discussion. I would also request that you send a copy of the agenda item and minutes to me c/o the Council's Monitoring Officer whose details are:-

Miss Lynn Ball, Head of Function Legal and Administration/Monitoring Officer, Isle of Anglesey County Council, Council Offices, Llangefni, Anglesey LL77 7TW.

I look forward to hearing from you.

Kind regards,

Yours sincerely

Michael Wilson
Cadeirydd y Pwyllgor Safonau / Chair of the Standards Committee

**ADRAN Y DIRPRWY PRIF WEITHREDWRAIG**
**DEPARTMENT OF THE DEPUTY CHIEF EXECUTIVE**

**LYNN BALL LL.B., (Hons.)Cyfreithiwr/Solicitor**
**PENNAETH SWYDDOGAETH (BUSNES Y CYNGOR) / SWYDDOG MONITRO**
**HEAD OF FUNCTION (COUNCIL BUSINESS) / MONITORING OFFICER**

**CYNGOR SIR YNYS MON / ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL**
**Swyddfa'r Sir / Council Offices**
**LLANGEFNI**
**Ynys Môn / Anglesey**
**LL77 7TW**

**DX: 701771 – LLANGEFNI**

**ffôn / tel: (01248) 752586**
**ffacs / fax: (01248) 752132**
**E-Bost – E-mail:** LBXCS@anglesey.gov.uk

**Ein Cyf – Our Ref.** LB/MWJ/CC-015794-LB
**Eich Cyf – Your Ref.**

Llythyr 3 / Letter 3

DRAFT

Annwyl

**HYFFORDDIANT AR Y CÔD YMDDYGIAD I AELODAU CYNGOR TREF A CHYMUNED**

Mae Pwyllgor Safonau'r Cyngor Sir wedi gofyn i mi ysgrifennu atoch ymhellach ynglŷn â gwahoddiadau a anfonwyd i chi y flwyddyn ddiwethaf, yn cynnig hyfforddiant ar y Côd Ymddygiad i Aelodau Cynghorau Cymuned. Trefnwyd y sesiynau hyfforddi gan y Pwyllgor Safonau a darperir hwy gan Un Llais Cymru.

Bu'r Pwyllgor Safonau yn ddiweddar yn adolygu presenoldeb yn y sesiynau hyfforddi ac roeddent yn siomedig i nodi bod eich Cyngor, heb anfon unrhyw aelod i'r hyfforddiant.

Mae hyfforddiant ar y Côd Ymddygiad o fudd i'r holl Aelodau ac y mae'n rhaid iddynt, fel yr ydych yn gwybod, gadw at y Cod wrth gyflawni eu rôl fel Cynghorwyr.

Weithiau bydd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC) yn cynnal

Dear

**CODE OF CONDUCT TRAINING FOR TOWN AND COMMUNITY COUNCIL MEMBERS**

The County Council's Standards Committee has asked me to write to you further about invitations sent out last year, offering Code of Conduct training for Community Council Members. The training sessions were arranged by the Standards Committee and provided by One Voice Wales.

The Standards Committee recently reviewed attendance at the training sessions and were disappointed to note that your Council, failed to provide any attendees for the training.

Training on the Code of Conduct is beneficial to all Members who, as you know, are required to abide by the Code in conducting their role as Councillors.

The Public Services Ombudsman for Wales (PSOW) sometimes carries out

ymchwiliadau i ymddygiad Aelodau Cynghorau Cymuned ac un ffactor y bydd yn aml iawn yn ei gymryd i ystyriaeth wrth benderfynu a fydd yn dilyn cwynion hyd at roi cosb, yw ymrwymiad Aelod i hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad.

investigations into the conduct of Community Council Members and a factor which he often takes into consideration, in deciding whether to pursue complaints to sanction, is a Member's commitment to Code of Conduct training.

Yn ychwanegol, mae'n debyg y byddwch yn gwybod y bydd yna yn fuan ofyniad statudol i bob Cyngor Cymuned fod â phresenoldeb ar y we. Mae Fforwm Pwyllgorau Safonau Gogledd Cymru, sy'n cynnwys cynrychiolwyr o bob un o Bwyllgorau Safonau Gogledd Cymru, sydd hefyd ag awdurdodaeth dros Gynghorau Sir a Chynghorau Tref a Chymuned, yn ysgrifennu at Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac Un Llais Cymru gyda chais bod gwefannau pob Cyngor Cymuned yn cynnwys gwybodaeth safonol ynglŷn â materion yn ymwneud â'r Côd Ymddygiad a rôl y Pwyllgor Safonau a'r OGCC. Mae hyn yn debyg o arwain at gynnydd mewn sgriwtini gan y cyhoedd ar gydymffurfiaeth Aelodau â'r Côd.

In addition, you will probably be aware that there will soon be a statutory requirement for all Community Councils to have a web presence. The North Wales Standards Committee Forum, which includes representatives of all the North Wales Standards Committees, who have jurisdiction over County Councils and Town and Community Councils, is writing to the WLGA and One Voice Wales to request that all Community Council websites include standard information regarding matters concerning the Code of Conduct and the role of the Standards Committee and the PSOW. This is likely to lead to an increase in scrutiny by the public of Members' compliance with the Code.

Er mwyn sicrhau bod Aelodau Cynghorau Cymuned wedi eu paratoi'n dda, y flwyddyn hon fe fydd trefniadau hyfforddi gwahanol yn cael eu cynnig, gyda sesiynau hyfforddi wedi eu llunio ar gyfer Clercod Cynghorau Cymunedol; yn canolbwyntio ar egwyddorion allweddol y Côd Ymddygiad, yn arbennig agweddau cyfreithiol yr ymrwymiad i drin eraill â pharch ac ystyriaeth a'r angen i ddeall y gwahaniaeth rhwng diddordebau personol a rhagfarnus, a beth sydd angen ei ddatgan, pryd a sut.

To ensure that Community Council Members are well prepared, this year there will be different training arrangements offered, with training sessions devised for Community Council Clerks; concentrating on the key principles of the Code of Conduct, especially the legal aspects of the obligation to treat others with respect and consideration and the need to understand the distinction between personal and prejudicial interests, and what needs to be declared, when and how.

Byddai'r Pwyllgor Safonau yn ddiolchgar pe gallech annog eich Clerc i fynychu'r hyfforddiant hwn ac wedi hynny byddem yn gofyn i'r Clercod rannu'r hyfforddiant y maent wedi ei dderbyn gydag eraill ar eu Cyngor/au.

The Standards Committee would be grateful if you would encourage your Clerk to attend this training and thereafter we would request that the Clerks share the training which they have received with others on their Council/s.

Bydd y Pwyllgor Safonau yn ysgrifennu atoch yn y man mewn perthynas â'r hyfforddiant arfaethedig hwn ac er mwyn ein

The Standards Committee will write to you in due course in relation to this proposed training and to assist us, we ask that you

DRAFT

helpu, rydym yn gofyn i chi anfon yn ôl atom gydag unrhyw awgrymiadau fydd gennych, ar unrhyw faterion arbennig sy'n ymwneud â'r Côd, ac y byddech yn hoffi i ni roi sylw iddynt yn yr hyfforddiant. Byddai o gymorth i ni glywed gennych gyda'ch awgrymiadau erbyn 30 Mehefin, 2014.

Er mwyn sicrhau bod Aelodau eich Cyngor Cymuned yn rhoi ystyriaeth ddyledus i'r hyfforddiant hwn, rydym am ofyn i chi roi'r llythyr hwn ar raglen y cyfarfod nesaf o'ch Cyngor Cymuned, i'w drafod. Byddwn hefyd yn gofyn i chi anfon copi o'r eitem ar y rhaglen a'r cofnodion i mi d/o Swyddog Monitro'r Cyngor fel a ganlyn: -

Miss Lynn Ball, Pennaeth Swyddogaeth Cyfreithiol a Gweinyddu/Swyddog Monitro, Cyngor Sir Ynys Môn, Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni, Ynys Môn LL77 7TW.

Edrychaf ymlaen i glywed gennych.

Cofion gorau,

Yr eiddoch yn gywir

come back to us with any suggestions that you may have, on any particular issues involving the Code, which you would like us to address in the training. It would be helpful to hear from you with your suggestions by the 30th June 2014.

To ensure that your Community Council Members give due consideration to this training issue, we would also ask that you place this letter on the agenda of the next meeting of your Community Council, for discussion. I would also request that you send a copy of the agenda item and minutes to me c/o the Council's Monitoring Officer whose details are:-

Miss Lynn Ball, Head of Function Legal and Administration/Monitoring Officer, Isle of Anglesey County Council, Council Offices, Llangefni, Anglesey LL77 7TW.

I look forward to hearing from you.

Kind regards,

Yours sincerely

Michael Wilson
Cadeirydd y Pwyllgor Safonau / Chair of the Standards Committee

DRAFT

# PAPUR/ENCLOSURE FF

## Enghraifft o ffurflen ar gyfer cyfweliad adolygu datblygiad personol

**Llenwch y ffurflen hon a dod ag e i'r cyfarfod. Mae'r ffurflen yn gyfrinachol i chi a'r sawl fydd yn eich cyfweld ar wahân i'r dudalen olaf sydd i'w defnyddio gan swyddogion cynorthwyo'r cynghorwyr i baratoi'ch cynllun datblygu personol a blaenoriaethu gweithgareddau ar gyfer rhaglen hyfforddi'r awdurdod.**

1. **Beth yw fy rolau a'm cyfrifoldebau ar hyn o bryd?** (Er enghraifft, cabinet y cyngor, aelod o bwyllgor trosolwg a chraffu, cadeirydd, aelod o bwyllgor statudol megis cynllunio neu drwyddedu, cynrychioli'ch ward, arwain y gymuned.)

2. **Pa orchwylion mae rhaid imi eu cyflawni eleni?**
   **Beth rwy'n bwriadu ei wneud? Erbyn pryd?**

3. **Beth mae angen imi ei wybod a gallu ei wneud i gyflawni fy rôl a gwireddu fy uchelgeisiau?** (Gall y disgrifiad o'ch rôl, manylion eich rôl a fframwaith datblygu'r cynghorwyr fod o gymorth yma.)

4. **Ym mha agweddau ar fy rôl rwy'n hyderus?**

5. **Ble rwy'n llai hyderus?**

6. **Beth allai fy rhwystro i rhag cyflawni fy rôl?** (Ystyriwch unrhyw faterion personol, cyfundrefnol neu wleidyddol allai fod yn feini tramgwydd.)

7. **Pa ddysgu a datblygu rwyf i wedi'u gwneud eleni?**

8. **Beth rwyf i wedi'i ddysgu a'i gyflawni o ganlyniad i hynny?**

9. **Pa ddysgu a datblygu ychwanegol fyddai'n ddefnyddiol?** (Yn ôl y tabl isod.)

| **Dyma'r meysydd yr hoffwn i eu datblygu:** | **Y datblygu sydd orau gyda fi** (e.e. ymweld ag awdurdodau eraill, cwrdd â chymheiriaid, gweithdai, e-ddysgu). |
|---|---|
| Medrau (e.e. rheoli cyfarfodydd, dulliau holi, trin a thrafod y cyfryngau). | |
| Gwybodaeth (e.e. côd ymddwyn, proses y cynllunio, cydraddoldeb, polisïau lleol). | |

**10. Fel rhan o'ch Datblygiad Personol, a fyddai cael eich mentora o fendith i chi? Os byddai, ymhelaethwch os gwelwch yn dda.**

**Y dysgu a'r datblygu y bydd eu hangen arnaf i eleni (trafodwch hyn gyda swyddog cynorthwyo'r cynghorwyr a fydd yn defnyddio'r dudalen hon i baratoi cynlluniau datblygu a rhaglenni hyfforddi).**

| Maes i'w ddatblygu | Sut | Blaenoriaeth |
|---|---|---|
| *Enghraifft:*<br>*Llywio cyfarfodydd pwyllgor craffu* | *Hoffwn i wylio cyfarfodydd cynghorau eraill.*<br>*Byddai gweithdy am lywio cyfarfodydd yn ddefnyddiol.*<br>*Hoffwn i ganllawiau ysgrifenedig ar gyfer cadeiryddion pwyllgor craffu.* | *1* |
| *Enghraifft:*<br>*Deall trefn y cynllunio i ateb ymholiadau pobl y fro* | *Byddai gweithdy am elfennau sylfaenol cynllunio o gymorth.*<br>*Hoffwn i gwrdd â swyddogion cynllunio i drafod materion mae pobl fy mro wedi'u codi ynglŷn â chaniatâd cynllunio.* | 3 |
| *Enghraifft:*<br>*Arian llywodraeth leol – helpu i bennu cyllideb* | *Hoffwn i gwrdd â swyddogion ariannol a chael fy mentora gan aelod y cabinet dros faterion ariannol ac adnoddau achos dyma faes sydd o ddiddordeb i mi.* | 2 |
| *Enghraifft:*<br>*Hyfforddiant am drin a thrafod y cyfryngau* | *Hoffwn i gwrdd â rhywun sy'n gallu esbonio sut mae defnyddio Twitter yn ddiogel i hysbysebu fy ngwaith ac annog pobl i gysylltu â mi.* | 4 |

**Cloriannu'r hyfforddiant sydd wedi'i roi imi**

| Hyfforddiant | Ei effaith ar fy ffordd o weithio'n gynghorydd |
|---|---|
| *Enghraifft: Rhaglen cyflwyno gwaith y cyngor a'i hoelion wyth.* | *Mae wedi fy atgoffa o'r ffordd mae'r cyngor yn gweithredu fel y galla i esbonio hynny i bobl yn fy nghymorthfeydd a nodi swyddogion y dylwn i gysylltu â nhw.  Mae wedi tynnu sylw at feysydd lle mae eisiau rhagor o hyfforddiant, hefyd.* |
| *Enghraifft: Hyfforddiant am drin a thrafod y cyfryngau.* | *Mae wedi fy helpu i gynrychioli'r cyngor yn well mewn cyfweliad radio yr wythnos ddiwethaf.* |
| *Enghraifft: Dilyn cwrs yn Academi Arwain Cymru.* | *Mae wedi fy helpu i ddeall fy ffordd o arwain a sut mae'n wahanol i ddulliau pobl eraill.  Rwy'n cydweithio'n well ag aelodau eraill y cabinet bellach. Fe ges i gymorth ynglŷn â her bersonol ym maes arwain, hefyd.* |

**Canllawiau enghreifftiol i gynghorwyr sy'n cyfweld cynghorwyr eraill i adolygu eu datblygiad personol**

Cyn dechrau'r adolygu, gallai fod yn ddefnyddiol ystyried y canllawiau canlynol:

**Diben yr adolygu**

Diben y cyfarfod yw rhoi cyfle i'r sawl y byddwch chi'n ei gyfweld adolygu ei rôl ar y cyfan, nodi unrhyw orchwylion penodol ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod, ystyried y meysydd lle mae'n teimlo'n hyderus a nodi'r rhai mwy ymestynnol lle gallai fod angen ei gynorthwyo a'i ddatblygu. Fe ddylech chi roi gwybod i swyddogion cynorthwyo'r cynghorwyr am y dysgu a'r datblygu y bydd eu hangen arno, ynghyd â'r hyn ddeilliodd o weithgareddau datblygu blaenorol, i'w helpu i lunio rhaglenni datblygu cynghorwyr.

**Paratoi**

Efallai yr hoffech chi ddarllen y disgrifiad o rôl y sawl sydd i'w gyfweld ac ystyried rhai o'r cwestiynau y byddwch chi'n eu gofyn i'w helpu i archwilio ei rôl a'i anghenion. Er y bydd swyddogion cynorthwyo a hyfforddi'r cynghorwyr yn rhoi'r holl wybodaeth i bob aelod o'r cyngor, efallai yr hoffech chi fwrw golwg ar y gweithgareddau hyfforddi, cynorthwyo a datblygu sydd ar gael. Bydd y sawl sydd i'w gyfweld yn cysylltu â chi i drefnu amser a lle sy'n gyfleus i'r ddau ohonoch chi fel y gallwch chi gael sgwrs gyfrinachol heb i neb dorri ar ei thraws. Ddylai'r cyfarfod ddim para'n hwy nag awr a hanner.

**Adolygu'r datblygiad personol**

Cofiwch y bydd eich sgwrs yn ystod y cyfarfod yn gyfrinachol.

Diben y cyfweliad yw helpu'r cynghorydd i ystyried ei rôl, ei gyfraniad, ei gryfderau, ei wendidau a'r hyfforddiant y gallai fod ei angen arno. Dylech chi weithredu'n seinfwrdd gwrthrychol yn ystod yr adolygu.

Ddylech chi ddim rhoi'ch adborth eich hun am waith y cynghorydd.

Defnyddiwch y ffurflen yn fan cychwyn i'r drafodaeth.

Cyfrifoldeb y sawl sydd wedi'i gyfweld yw cymryd unrhyw gamau yn sgîl y sgwrs, cadw unrhyw ddogfennau a thrafod unrhyw anghenion sy'n dod i'r amlwg gyda swyddogion cynorthwyo'r cynghorwyr.

Mae modd pennu unrhyw gymorth ychwanegol y gallai fod angen i'r awdurdod ei roi, a thynnu sylw'r awdurdod at hynny fel y bo'n briodol.

**Canllawiau i gynghorwyr sy'n cael eu cyfweld**

Cyn mynd i'r cyfweliad, efallai y bydd yn ddefnyddiol ystyried y canllawiau canlynol:

**Diben yr adolygu**

Diben y cyfarfod yw rhoi cyfle ichi adolygu'ch rôl yn gyffredinol, ystyried rhai gorchwylion penodol ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod, nodi'r meysydd lle rydych chi'n teimlo'n hyderus a phennu rhai mwy ymestynnol lle gallai fod angen eich cynorthwyo a'ch datblygu. Bydd cyfle ichi nodi'ch anghenion o ran dysgu a datblygu fel y gallwch chi roi gwybod amdanyn nhw i swyddogion cynorthwyo'r cynghorwyr i'w helpu i drefnu rhaglenni datblygu. Ar ben hynny, byddwch chi'n cael cloriannu'r hyfforddiant rydych chi wedi'i gael yn barod.

**Paratoi**

Bydd angen ichi lenwi'r ffurflen cyn y cyfarfod i'ch helpu i feddwl am eich rôl, gorchwylion penodol ar gyfer eleni ac unrhyw gymorth y gallai fod ei angen arnoch chi. At hynny, fe fydd yn ddefnyddiol adolygu'r disgrifiad o'ch rôl, gofynion eich rôl, fframwaith datblygu'r cynghorwyr a'r holiadur ar ei gyfer.

Cysylltwch â'r sawl fydd yn eich cyfweld i drefnu amser a lle cyfleus i'r ddau ohonoch chi fel y gallwch chi gael sgwrs gyfrinachol heb i neb dorri ar ei thraws.

**Adolygu'r datblygiad personol**

Cofiwch y bydd eich sgwrs yn ystod y cyfarfod yn gyfrinachol.

Defnyddiwch y ffurflen yn fan cychwyn i'r drafodaeth.

Fe fydd y sawl sy'n eich cyfweld yn eich helpu chi i ystyried eich rôl, eich cyfraniad, eich cryfderau, eich gwendidau ac unrhyw hyfforddiant y gallai fod ei angen arnoch chi. Bydd yn gweithredu'n seinfwrdd gwrthrychol i'r perwyl hwnnw.

Nid rhoi ei adborth ei hun am eich gwaith yw ei rôl.

Eich cyfrifoldeb chi yw cymryd unrhyw gamau yn sgîl y sgwrs, cadw unrhyw ddogfennau a thrafod unrhyw anghenion sy'n dod i'r amlwg gyda swyddogion cynorthwyo'r cynghorwyr.

Mae modd pennu unrhyw gymorth ychwanegol y gallai fod angen i'r awdurdod ei roi, a thynnu sylw'r awdurdod at hynny fel y bo'n briodol.

This page is intentionally left blank

# PAPUR/ENCLOSURE G

# Adolygiad o'r Cofrestrau – Crynodeb o'r Casgliadau

| Y Gofrestr Sefydlog | Cofrestr Datganiadau mewn Cyfarfodydd | Cofrestr Rhoddion a Lletygarwch | Cofnod Hyfforddiant |
|---|---|---|---|
| 1. Nifer o enghreifftiau o beidio â datgan fel buddiant personol, statws fel llywodraethwyr ysgol.<br>2. Cynghorwyr ddim yn darparu digon o fanylion ynghylch buddiant mewn tir yn 1.6. Mae angen mwy o fanylion ynghylch hyn ac os nad oes gan Gynghorydd unrhyw fuddiant mewn tir yna dylid datgan hynny fel "dim" neu "ddim buddiant". Efallai bod diffyg dealltwriaeth ymysg Gynghorwyr ynghylch yr hyn a olygir gan fuddiant mewn tir.<br>3. Mae byrfoddau a ddefnyddir ar gyfer cyrff allanol, elusennau a chymdeithasau yn aneglur. Dylai Aelodau nodi enw a chyfeiriad llawn y cyrff/elusennau y maent yn aelodau ohonynt.<br>4. Dim digon o fanylion am y gweithgareddau busnes y maent yn ymwneud â nhw – mae angen disgrifiadau o'r math o fusnesau y maent yn gysylltiedig â nhw.<br>5. Byddai o gymorth petai modd cynnwys darn yn y rhan honno | 1. Nifer o enghreifftiau o ffurflenni papur yn cael eu llenwi mewn cyfarfodydd ond ddim yn cael eu diweddaru ar-lein. A yw hyn yn fater i'r swyddogion sy'n prosesu'r wybodaeth?<br>2. Dryswch yn parhau ynghylch yr hyn sy'n fuddiant personol a'r hyn sy'n fuddiant sy'n rhagfarnu.<br>3. Enghreifftiau o aelodau'n ticio'r blwch i ddweud bod ganddynt fuddiant ond dim manylion am y buddiant. A yw hyn oherwydd ansicrwydd ar eu rhan?<br>4. Dim digon o fanylion ynghylch beth yw'r diddordebau personol a'r diddordebau rhagfarnus.<br>5. Dryswch ynghylch buddiant sy'n rhagfarnu a'r hyn a olygir gan yr ymadrodd – yn arbennig pan yn siarad am deulu a ffrindiau.<br>6. A ddylai cadeiryddion pwyllgorau roddi arweiniad i aelodau?<br>7. Cynghorwyr ddim digon gofalus wrth gwblhau'r | 1. Dywed y wefan nad oes unrhyw roddion a lletygarwch oherwydd nad yw'r safle wedi cael ei ddiweddaru gyda'r manylion a ddarparwyd ar gopïau papur. A ddylid newid hyn, ei dynnu neu ddweud "dim ar gael eto" yn lle hyn?<br>2. A ddylid gwneud i ffwrdd â'r trothwy £20 er mwyn annog mwy o ddatgeliadau?<br>3. Dylid adolygu'r diffiniad o "letygarwch" ac mae angen addysgu aelodau am ystyr hyn, e.e. a yw mynychu cyflwyniad a roddir gan gyrff allanol lle mae bwyd ar gael yn lletygarwch?<br>4. Byddai o fudd pe bai'r rhain yn cael eu cwblhau ar-lein oherwydd y byddai'n fwy tryloyw – ar hyn o bryd nid oes gan y Cyngor fynediad rhyngweithiol i'r gofrestr.<br>5. Ychydig iawn o ddatganiadau'n cael eu gwneud o hyd.<br>6. Byddai o fudd i'r aelodau gael cyngor ar ba bryd i gofnodi rhoddion a lletygarwch a'u hatgoffa y bydd cwblhau'r | 1. Awgrym fod cofnodiadau hyfforddiant yn cael eu cadw ar gyfer aelodau cyfetholedig;<br>2. A fedrir rhoi cofnodiadau hyfforddiant ar-lein?<br>3. Rhai aelodau o'r pwyllgor archwilio heb fynychu hyfforddiant ar gyfer y pwyllgor hwnnw.<br>4. Mae cryn dipyn o'r aelodau heb fynychu'r hyfforddiant ar gofrestru diddordeb.<br>5. Nid yw'r rhan hon o'r wefan yn ddwyieithog.<br>6. Dylid diweddaru'r cofnodion i ddangos faint o sesiynau hyfforddi y gwahoddwyd yr Aelodau iddynt.<br>7. Dylid nodi gwerth y rhoddion a'r lletygarwch a gafwyd. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| sy'n ymwneud â'r gofrestr sefydlog ar y rhyngrwyd i ddangos y dyddiad pryd y cafodd y gofrestr ei diweddaru diwethaf.<br>6. Mae angen i'r rhestr o gyrff allanol a llywodraethwyr ysgolion gynnwys dyddiadau penodi.<br>7. Erys anghysonderau rhwng aelodaeth o gyrff allanol, fel y cofnodwyd gan y Cyngor, a'r rheini a ddatganwyd.<br>8. A oes modd symleiddio'r rhestr o gyrff allanol trwy restru enw pob Cynghorydd a'r corff y maent wedi eu penodi i wasanaethu arno.<br>9. Argymell y dylid rhoi llinell trwy'r holl flychau nad ydynt yn cael eu defnyddio yn y gofrestr sefydlog neu ysgrifennu "dim" neu "na" ynddynt. | ffurflenni, gyda nifer o wallau ynddynt a methiant i gwblhau'r ffurflenni'n llawn.<br>8. Nid yw Aelodau yn rhoi digon o wybodaeth am natur y diddordeb a sut mae'n ymwneud â'r eitemau ar y rhaglen.<br>9. Dim angen gwneud newidiadau i'r ffurflenni – ond bod angen i'r Cynghorwyr gymryd mwy o ofal wrth eu cwblhau.<br>10. Awgrymu y dylai Cadeirydd y Pwyllgor roi'r ffurflenni yn ôl os nad ydynt yn gyflawn.<br>11. Rhai Cynghorwyr yn dal i gwblhau'r hen ffurflenni. Dylid dweud wrth Gynghorwyr am ddifa'r hen ffurflenni a dylid dweud wrth Gadeiryddion Pwyllgor am beidio â'u derbyn.<br>12. Enghreifftiau o ddiddordebau rhagfarnus i'w gweld ar y wefan yn y Saesneg ond nid yn y Gymraeg. Dylai'r ddwy fersiwn fod yr un fath.<br>13. Mae nifer o flychau sy'n dweud pethau fel "mae angen i aelodau roi tic mewn un blwch" ac ati yn cael eu hanwybyddu.<br>14. Byddai mwy o arweiniad ar y gwahaniaeth rhwng | ffurflenni yn cynorthwyo i ostwng nifer y cwynion. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | diddordeb personol a diddordeb rhagfarnus o fudd. | | |

# PAPUR/ENCLOSURE NG

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD** |
| **DYDDIAD Y CYFARFOD:** | **30 IONAWR 2014** |
| **TEITL:** | **GWEDDARLLEDU CYFARFODYDD A MYNYCHU O BELL** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **ADRODD AR GYNNYDD O SAFBWYNT GWEDDARLLEDU CYFARFODYDD A MYNYCHU O BELL** |
| **AWDUR:** | **PENNAETH GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD DROS DRO** |

1.0 **Cefndir**

1.1 Fe fydd Aelodau yn ymwybodol i'r Pwyllgor ystyried adroddiad ynglyn â gweddarlledu cyfarfodydd a mynychu o bell ar y 1af o Hydref 2013. Penderfynwyd argymell i'r Cyngor:

*'Symud ymlaen i weddarlledu cyfarfodydd am gyfnod arbrofol o ddwy flynedd er mwyn defnyddio Cyllid Llywodraeth Cymru'*

*Mai cyfarfodydd y Cyngor Sir llawn, y Pwyllgor Gwaith a'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion fydd y cyfarfodydd fydd yn cael eu gweddarlledu fel rhan o'r cynllun peilot;*

*Rhoi'r awdurdod i Bennaeth Dros Dro Gwasanaethau Democratiadd a'r Rheolwr TGCh i brynu'r offer angenrheidiol yn seiliedig ar ddatrysiad wedi ei letya;*

*Nodi'r sefyllfa mewn perthynas â mynediad o bell fel y manylir arni yn yr adroddiad.*

1.2 Yn ei gyfarfod ar y 10 Hydref penderfynodd y Cyngor y dylid canlyn ymlaen gyda Gweddarlledu cyfarfodydd am gyfnod peilot o 2 flynedd.

1.3 Yn dilyn proses tendro gystadleuol sicrhawyd darpariaeth gweddarlledu wedi ei letya. Cwmni Public-i fydd yn ei reoli. Mae'r cytundeb yn seiliedig ar ddarlledu cyfanswm o 90 awr o gyfarfodydd sy'n rhan o'r peilot yn flynyddol. Efallai y bydd cyfle fel rhan o'r peilot i ddarlledu cyfarfodydd eraill sydd o ddiddordeb cyhoeddus er mwyn gwneud defnydd llawn o'r oriau sydd ar gael ar gyfer gweddarlledu, petai angen.

2.0 **Rhaglen Cyflwyno**

2.1 Bydd angen cyfnod i dreialu y system cyn darlledu cyfarfodydd yn fyw er mwyn ymgyfarwyddo Aelodau a Staff. Bydd y cwmni yn darparu hyfforddiant a chefnogaeth barhaus i'r Cyngor. Bydd Staff o'r Gwasanaethau Democrataidd yn darparu cefnogaeth a'r Adain Technoleg Gwybodaeth yn darparu cefnogaeth prosiect a thechnegol.

Awgrymir yr amserlen canlynol ar gyfer gweddarlledu:-

| **Tasg** | **Erbyn** |
|---|---|
| Gosod offer yn Siambr y Cyngor | 18 – 22 Chwefror |
| Hyfforddiant i Aelodau a Staff ar y system gweddarlledu Public-i | Bwriedir yn ystod wythnos yn dechrau 24 Chwefror |
| System yn weithredol | Bwriedir yn ystod wythnos yn dechrau 3 Mawrth |

2.2 Bwriedir cychwyn y cynllun peilot drwy weddarlledu y Pwyllgor Gwaith ar y 17 Mawrth ac yna cyfarfodydd eraill i ddilyn.

3.0 **Mynediad o Bell**

3.1 Disgwylir i Lywodraeth Cymru gyhoeddi canllawiau terfynol cyn ddiwedd y mis hwn. Bydd angen adrodd i'r Pwyllgor Gwaith a'r Cyngor Sir gan y bydd angen newid y Cyfansoddiad.

4.0 **Argymhellion**

i) Nodi'r cynnydd fel y manylir yn yr adroddiad a dechrau gweddarlledu ym Mawrth 2014 (para 2.2).

ii) Nodi'r sefyllfa ddiweddaraf ynglŷn â mynediad o bell (para 3.1).

**Huw Jones**
**Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd Dro Dro**
**21/01/14**

This page is intentionally left blank